Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




Ebrill 2024 – Mawrth 2025

# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Adolygiad Blynyddol 2024–2025

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

# Cynnwys


Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg....3
Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd....4
Cyfran cyfanswm yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yn ystod 2024–2025....4
Demograffig....5
Crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau....7
Amseroedd cyrraedd y ddalfa....9
Darpariaethau yn y ddalfa....10
Menywod yn y ddalfa....11
Hylendid....12
Arwyddion rhybudd cynnar yn y ddalfa....13
Hawliau a hawlogaethau....14
Lefel arsylwi....16
Gwasanaethau cynorthwyol....18
Dillad gwrth-niwed/Dillad risg arbennig....19
Noeth-chwiliadau....21
Oedolion priodol....22
Plant yn y ddalfa....23

**Atodiad- Geirfa'r ddalfa** ........ 25
**Acronym (yn Saesneg)** ........ 25
**Diffiniad (a thalfyriad yn Gymraeg)** ........ 25

## Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Yn 2022, nododd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mai prin oedd y craffu annibynnol ar anghymesuredd a dalfeydd mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r heddlu'n trin y cyhoedd.

Mae Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi awgrymu y byddai Panel Craffu Annibynnol ar y Ddalfa yn gwella tryloywder, yn cynyddu hyder y cyhoedd ac yn nodi arferion da ac arferion gwael.

Diben cyffredinol Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yw sicrhau bod gweithdrefnau dalfeydd a chadw yr heddlu yn Nyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol.

Mae aelodaeth y panel craffu yn cynnwys gwirfoddolwyr presennol (ond nid yn gyfyngedig i) o blith:

1) Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
2) Panel Sicrhau Ansawdd

Yn ogystal ag aelodau'r panel, cynorthwyodd Arolygydd y Ddalfa y broses graffu a darparodd sylwadau/arsylwadau'r heddlu ar gyfer yr adroddiad hwn hefyd.

## Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel dros y cyfnod o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025.







## Cyfran cyfanswm yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yn ystod 2024–2025

*Gweler yr atodiad o dalfyriadau am ddiffiniadau o derminoleg.*

**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Yn seiliedig ar y data uchod, mae'n amlwg ein bod wedi sicrhau trawstoriad da o gofnodion y ddalfa o bob dalfa ac wedi craffu ar nifer o feysydd, megis plant yn y ddalfa, defnyddio grym, a defnyddio dillad gwrth-niwed sy'n destun craffu rheolaidd ar lefel genedlaethol. Adolygwyd y nifer mwyaf o gofnodion yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, sydd i'w ddisgwyl gan fod Hwlffordd a Dafen yn profi'r niferoedd uchaf yn y ddalfa.*

## Demograffig

- O’r pum cyfarfod Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa a gynhaliwyd, adolygwyd 93 o gofnodion y ddalfa.  Dyma ddadansoddiad o’r demograffeg sy’n cynnwys y 93 cofnod hynny.












**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Rwy'n credu ein bod wedi sicrhau trawstoriad da o oedran a rhywedd. O ran ethnigrwydd, mae ein ffocws ar gofnodion dalfa lleiafrifoedd ethnig wedi ein galluogi i gwmpasu ystod dda o ethnigrwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon; fodd bynnag, disgwylir mai "Gwyn Prydeinig" yw'r ethnigrwydd a adolygwyd fwyaf yn seiliedig ar ddemograffeg Heddlu Dyfed-Powys fel heddlu.*

## Crynodeb cyffredinol o’r canfyddiadau

*Dyma gyfanswm y meysydd gwaith cadarnhaol a nodwyd ar gyfer y ddalfa gan y panel dros gyfnod y chwech cyfarfod.*




*Dyma gyfanswm y meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant ar gyfer y ddalfa gan y panel dros gyfnod y chwech cyfarfod.*




**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Mae'n braf gweld cymaint o ganfyddiadau cadarnhaol wedi'u rhestru gan aelodau'r panel yn ystod eu hadolygiadau. Wrth adolygu'r meysydd ar gyfer gwelliant a ddogfennwyd gan aelodau'r panel, mae'n amlwg bod cofnodi a lefel y manylder wrth gofnodi yn broblem. Rhoddwyd adborth i holl staff y ddalfa ynghylch pwysigrwydd manylder o fewn cofnodion dyddlyfr y ddalfa, yn enwedig ynghylch unrhyw resymeg.*

*Mae perfformiad wedi cael ei fonitro'n barhaus mewn meysydd allweddol o ran plant yn y ddalfa a menywod yn y ddalfa, ac yn cael ei archwilio bob bore, ac mae gwelliannau helaeth wedi'u gwneud yn y meysydd allweddol hyn yn ystod y misoedd diwethaf.*

## Amseroedd cyrraedd y ddalfa







- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o gyrraedd i gael awdurdod i gadw yn y ddalfa oedd **21 munud** yn gyfan gwbl.
- Cyfanswm yr amser cyfartalog yn y ddalfa oedd **18 awr a 15 munud**.

**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Mae'n braf gweld mai'r amser cyfartalog ar gyfer awdurdod i gadw yn y ddalfa yw 21 munud. Mae hyn yn dangos bod y mwyafrif helaeth o unigolion a gedwir yn y ddalfa yn siarad â rhingyll y ddalfa yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd y ddalfa ac mai prin yw'r oedi.*

## Darpariaethau yn y ddalfa
















**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Rydyn ni'n gwybod bod y meysydd hyn i gyd yn cael eu cynnwys gyda phob unigolyn a gedwir yn y ddalfa, yn enwedig o ran coch alw'r gell a phicselu'r toiled. Hysbysir pob unigolyn a gedwir yn y ddalfa am hyn wrth gyrraedd y gell ac mae'r wybodaeth hefyd ar wal pob cell trwy stensil.*

## Menywod yn y ddalfa

*Dechreuodd y pwyslais ar fenywod a merched yn y ddalfa o'r cyfarfod ym mis Mehefin. Felly bydd gan yr agwedd hon o'r adroddiad gyfanswm o 78 o gofnodion yn lle 93 a welwyd gan y panel.*













**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Mae menywod yn y ddalfa wedi bod yn faes perfformiad allweddol sydd wedi bod yn destun craffu gan wasanaethau'r ddalfa am y chwe mis diwethaf. Mae archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau o bob dalfa bob bore i sicrhau bod aelod staff benywaidd yn cael ei dyrannu i bob unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa a bod hyn wedi'i ddogfennu ar y cynllun gofal. Mae gwelliannau helaeth wedi'u gwneud yn y maes hwn a bwriedir cyflawni cydymffurfiaeth o 100%.*

## Hylendid

*Mae'r agwedd hon yn cwmpasu pob un o'r 93 o gofnodion y ddalfa ar gyfer unigolion a gedwir yn y ddalfa.*




**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Mae'n braf gweld bod cyfran fawr o garcharorion wedi defnyddio cyfleusterau hylendid. Rhaid nodi bod POB unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael gwybod am argaeledd cyfleusterau hylendid wrth lofnodi am eu hawliau a'u hawlogaeth. Mae cyfleusterau hylendid wedi'u cynnwys mewn rhestr o nifer o eitemau eraill fel bwyd, ac ati. Rhaid ystyried hefyd na fydd angen i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa ddefnyddio cyfleusterau cawod yn dibynnu ar hyd yr amser y cânt eu cadw yn y ddalfa a pha amser o'r dydd y cânt eu cadw.*

## Arwyddion rhybudd cynnar yn y ddalfa




**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Ers 10 Ebrill 2025, nid yw arwyddion rhybudd cynnar yn y ddalfa yn cael eu defnyddio mewn unrhyw ddalfa Heddlu Dyfed-Powys mwyach. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn ymgynghoriad ag arweinydd clinigol ein darparwr meddygol. Er mai dim ond gwybodaeth sylfaenol fel cyfradd curiad y galon, lefelau ocsigen yn y gwaed, tymheredd, ac ati yr oedd hyn yn ei olygu, y cyngor gan yr arweinydd clinigol oedd y gallai'r wybodaeth hon effeithio ar benderfyniad swyddog y ddalfa ynghylch a oedd angen i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael ei weld gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd. Amlygwyd na fyddai rhai materion meddygol yn effeithio ar ganlyniadau arwyddion rhybudd cynnar yn y ddalfa ond y byddai dal angen i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa weld gweithiwr proffesiynol gofal iechyd. Cyflwynwyd rhybudd cynnar yn y ddalfa fel rhagofal* COVID-19 *ac yna datblygwyd hyn at ddefnydd arall nad oedd wedi'i fwriadu ar ei gyfer. Nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n eang ym mhob uned ddalfa ac roedd yn nodwedd reolaidd yn Aberhonddu yn unig.*

## Hawliau a hawlogaethau

A gyflwynwyd hawliau i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa - naill ai yn y cyfnod cofnodi neu'n ddiweddarach?




A oedd oedi o fwy nag awr cyn cyflwyno hawliau (e.e. i gael oedolyn priodol/cyfieithydd ar y pryd yn bresennol)?




A welodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa gyfreithiwr neu a gafodd gyfle i siarad ag un tra bu yn y ddalfa?




Os bu oedi hir cyn gweld cyfreithiwr, a oedd unrhyw reswm yn cael ei gynnig?




A roddwyd cyngor cyfreithiwr wyneb yn wyneb?




- *Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i swyddog y ddalfa gysylltu i ofyn am gyfreithiwr ar ôl awdurdodi cadw unigolyn yn y ddalfa oedd 2 awr a 39 munud.*
- *Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ôl awdurdodi cadw unigolyn yn y ddalfa oedd 2 awr 29 munud.*
- *Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd rhwng cais unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gyfreithiwr a cyn i'r cyfreithiwr gyrraedd oedd 7 awr a 9 munud.*

**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Nid yw mwyafrif y data hwn, yn enwedig yr amser cyfartalog rhwng gwneud y cais a cyn i'r cyfreithiwr gyrraedd, o fewn rheolaeth staff y ddalfa. O brofiad, DIM OND pan fydd cyfweliad wedi'i drefnu a'u bod wedi cael gwybod am amser y cyfweliad y bydd bron pob cyfreithiwr yn cyrraedd y ddalfa. Ni fydd cyfreithwyr yn cyrraedd y ddalfa cyn hyn ac fel arfer mae unrhyw gyngor cyfreithiol cyn y cyfweliad yn cael ei gynnig dros y ffôn rhag ofn bod unigolion a gedwir yn y ddalfa eisiau siarad â'u cyfreithiwr ar ôl iddynt gyrraedd y ddalfa.*

## Lefel arsylwi

*Bernir lefel y risg ar bedair lefel:*

- *Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)*
- *Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)*
- *Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)*
- *Lefel 4 Yn Gorfforol Agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).*












**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**
*Rhaid gosod lefelau arsylwi er mwyn cwblhau cynllun gofal ac mae'n cael ei gofnodi bob amser ar y cynllun gofal gan ddewis o gwymplen. Disgwylir mai arsylwadau Lefel 1 fyddai'r lefel a ddefnyddir amlaf.*

## Gwasanaethau cynorthwyol










**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Mae'n braf gweld bod y rhan fwyaf o'r unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cael eu cyfeirio at neu gynnig defnyddio gwasanaethau cymorth. Mae hwn yn faes yr ydym yn edrych yn weithredol i'w wella er mwyn darparu mwy o gefnogaeth "cofleidiol" i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Mae hyn yn cael ei gwblhau mewn cysylltiad â Mitie (darparwr meddygol) sydd â mynediad at ystod eang o gysylltiadau i wasanaethau cymorth. Mae hyn hefyd yn cael ei wella drwy'r Prosiect Eiliadau Cyrraeddadwy gydag Adferiad o ran gwella lefel y gefnogaeth i blant yn ystod ac ar ôl cyfnod yn y ddalfa.*

*Nodaf nad oedd 39% o unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ond ni fydd pob unigolyn a gedwir yn y ddalfa angen adolygiad.*

## Dillad gwrth-niwed/Dillad risg arbennig


















A yw’r cofnod yn cynnwys tystiolaeth o ddad-ddwysáu, eitemau sy’n tynnu sylw neu ddulliau eraill o leihau lefel risg yr unigolion tra yn y ddalfa?




A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth bod y dillad risg arbennig yn cael eu trafod pan mae staff yn trosglwyddo?




A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth bod y dillad risg arbennig/siwt gwrth-rwygo wedi cael eu tynnu cyn gynted â phosibl?




A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth bod dillad risg arbennig/siwt wrth-rwygo wedi cael eu tynnu cyn y cyfweliad?




**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Mae defnyddio dillad gwrth-niwed yn faes sydd wedi bod yn destun archwiliad manwl yn genedlaethol ers cyfnod hir. Yn dilyn adolygiad helaeth o ddefnydd Heddlu Dyfed-Powys o ddillad gwrth-niwed, a'r rhesymeg/rheswm dros eu defnyddio, mae'r penderfyniad bellach wedi'i wneud i gael gwared ar ddillad gwrth-niwed o unedau dalfa Heddlu Dyfed-Powys ar unwaith. Ni ddefnyddir dillad gwrth-niwed o fewn Heddlu Dyfed-Powys mwyach. Derbyniwyd adborth cadarnhaol ar y penderfyniad hwn gan staff y ddalfa. Cyn gwneud y penderfyniad hwn, nid oedd dillad gwrth-niwed wedi cael eu defnyddio o gwbl yn 2025 ac mae'n amlwg bod swyddogion y ddalfa yn dangos tystiolaeth o reoli risg gwell ar eu cynlluniau gofal ac yn defnyddio opsiynau eraill sydd ar gael iddynt.*

## Noeth-chwiliadau




**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**
*Wrth adolygu'r data hwn, nid yw'n gwbl glir mai dim ond nifer fechan o'r unigolion a gedwir yn y ddalfa a oedd yn destun noeth-chwiliad o fewn y cofnodion a adolygwyd.Fodd bynnag, mae'n braf gweld mai dim ond 1% o'r noeth-chwiliadau a nodwyd gan aelodau'r panel a oedd yn destun rhesymeg wael.*



## Oedolion priodol




- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd ar gyfer y cyswllt cyntaf rhwng yr heddlu a'r oedolyn priodol a gofnodwyd oedd 3 awr a 19 munud.
- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd ar ôl cofnodi unigolyn yn y ddalfa ar gyfer y cyswllt cyntaf rhwng yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa a'r oedolyn







**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**
*Mae'r data hwn wedi tynnu sylw at broblem bosibl ynghylch oedolion priodol ac oedolion sy'n agored i niwed. Er y cysylltir ag oedolion priodol ar unwaith ar gyfer plant sydd yn y ddalfa, nid wyf yn credu bod yr un lefel o frys ar hyn o bryd o ran cysylltu ag oedolyn priodol ar gyfer oedolyn sy'n agored i niwed. Mae hwn yn faes sy'n parhau i gael ei archwilio a bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i leihau'r amser cyfartalog a gymerir i ofyn am oedolyn priodol. Gall yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i oedolyn priodol siarad ag unigolyn a gedwir yn y ddalfa amrywio'n fawr yn dibynnu ar argaeledd oedolyn priodol a'r pellter y mae'n ei deithio.*

## Plant yn y ddalfa


















**Sylwadau/arsylwadau'r heddlu:**

*Plant yn y ddalfa yw prif ffocws gwasanaethau'r ddalfa ar hyn o bryd gyda nifer o newidiadau i brosesau dalfa wedi'u cytuno'n ddiweddar gan brif swyddogion. Nod y newidiadau i brosesau hyn yw lleihau nifer y plant sy'n mynd i'r ddalfa a sicrhau bod mwy o graffu ar yr angen i arestio a'r opsiynau eraill sydd ar gael. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd angen i blant fynd i mewn i amgylchedd y ddalfa a'r pwyslais wedyn yw lleihau lefel y trawma posibl y gallent ei brofi. Er mwyn gwneud hyn, mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer y "Prosiect Eiliadau Cyraeddadwy" sy'n cael ei gwblhau mewn cysylltiad agos ag Adferiad. Bydd y prosiect hwn yn sicrhau bod pob plentyn sydd mewn dalfa Heddlu Dyfed-Powys yn cael gwasanaeth mentora gan weithwyr o'r Prosiect Eiliadau Cyraeddadwy a gyflogir gan Adferiad. Bydd y gweithwyr hyn yn dod i'r ddalfa ac yn aros gyda'r plentyn drwy gydol ei gyfnod yn y ddalfa, gan roi cefnogaeth iddo, meithrin perthynas, a'i gyfeirio at wasanaethau cymorth. Bydd y gefnogaeth hon yn parhau ar ôl y cyfnod yn y ddalfa a bydd yn cynnwys cyfarfodydd dilynol rhwng y plentyn a'i weithiwr Eiliadau Cyraeddadwy gyda chefnogaeth bwrpasol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Cynigiwyd newidiadau i amgylchedd y ddalfa hefyd i gynnwys newid yr addurn i ddarparu mannau/celloedd wedi'u haddasu ar gyfer plant a'r rheini â niwroamrywiaeth. Bydd hyn hefyd yn cynnwys amrywiaeth well o ddeunydd tynnu sylw i'w defnyddio gan blant a'r rheini â niwroamrywiaeth.*

*O ran data ynghylch rhestr wirio plant, llais y plentyn, ac ati – mae archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau bob bore i sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau ar gyfer pob plentyn sydd yn y ddalfa. Y targed ar gyfer hyn yw cydymffurfiaeth 100%.*

**Atodiad- Geirfa'r ddalfa**

| Acronym (yn Saesneg) | Diffiniad (a thalfyriad yn Gymraeg) |
|---|---|
| AA | Oedolion priodol (diogelu buddiannau, hawliau, hawlogaeth a lles plant a phobl sy'n agored i niwed sy'n cael eu hamau o drosedd) |
| CIC | Plant yn y ddalfa |
| DP | Unigolyn a gedwir yn y ddalfa (a ddefnyddir yn fwy cyffredin gan yr heddlu) |
| DEO | Swyddog hebrwng y ddalfa |
| DO | Swyddog y ddalfa |
| HCP | Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol |
| OPCC | SCHTH – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| AHS | Dillad gwrth-niwed |
| SRC | Dillad risg arbennig |
| UoF | Defnydd o rym |
| W&G | Menywod a merched |